**PREIFAT A CHYFRINACHOL**

BWRDD(22-10)Cofnodion

**Cyfarfod o Fwrdd S4C**
Cyfarfod Rhif 459 a gynhaliwyd yn Yr Egin

09.30, 20 Hydref 2022

---

**Cofnodion**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
| Rhodri Williams | RhW | (Cadeirydd y Bwrdd) |
| Guto Bebb | GB | (Aelod Anweithredol) – yn rhithiol |
| Adele Gritten | AdG | (Aelod Anweithredol) – yn rhithiol |
| Chris Jones | CJ | (Aelod Anweithredol) – yn rhithiol |
| Suzy Davies | SuD | (Aelod Anweithredol) |
| Siân Doyle | SD | (Prif Weithredwr) |
| Llinos Griffin-Williams | LlGW | (Prif Swyddog Cynnwys) – yn rhithiol |
| Elin Morris | EM | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Geraint Evans | GE | (Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi) |
| Geraint Pugh | GP | (Ysgrifennydd Bwrdd S4C) – tan eitem 6 |
| Bethan C. Williams | BCW | (Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Sharon Winogorski | ShW | (Prif Swyddog Cyllid) – ag eithrio eitem 4 |
| **Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:** | | |
| Denise Lewis Poulton | | (Aelod Anweithredol) |

---

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**<br><br>Croesawodd Cadeirydd y Pwyllgor bawb i'r cyfarfod, ac yn arbennig GE a fyddai’n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd o hyn allan fel arsylwr.<br><br>Gofynnodd i unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â’u haelodaeth o’r Bwrdd, ac fe atgoffodd y Cadeirydd bawb o’r angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant.<br><br>Nododd AdG ei bod bellach wedi’i phenodi yn Brif Weithredwr i’r corff Local Partnerships, ac y byddai angen diweddaru ei phroffil ar wefan S4C.<br><br>Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad o ran penodi aelodau newydd i’r Bwrdd. | BCW |
| 2. | **Strategaeth Fasnachol newydd (i gynnwys Cyllideb 2022–23 y Grŵp Masnachol)**<br><br>Rhoddodd SD grynodeb o’r strategaeth fasnachol newydd, a oedd wedi ei gyflwyno i’r Bwrdd Masnachol ar 21 Medi 2022. Roedd yn awr yn cael ei gyflwyno i’w gytuno gan y Bwrdd Unedol, yn unol â’r Rheolau Sefydlog.<br><br>Roedd yr ymgynghorydd Oliver Laing wedi arwain ar ddatblygu’r strategaeth fasnachol newydd, a’r bwriad oedd ei holi i gynorthwyo gyda’r gwaith o roi’r strategaeth newydd ar waith. Yn y lle cyntaf, byddai S4C yn canolbwyntio ar ddwy neu dair o’r blaenoriaethau, wrth roi’r trefniadau llywodraethu addas mewn lle ac uwch-sgilio staff. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd CJ yn gefnogol i'r strategaeth newydd, ond mae angen i ni ddiffinio'r berthynas ariannol rhwng masnachol a'r ochr gyhoeddus – megis y polisi difidend rhwng y ddau. Bydd angen i'r Bwrdd Masnachol gytuno ar y difidend fyddai'n cael ei dalu i'r ochr gyhoeddus – i gyd-fynd gyda gofynion ariannol diwethaf. Esboniodd ShW fod Grant Thornton yn adolygu'r goblygiadau o ran treth oddi fewn i Grŵp S4C, ac y byddai adroddiad ar y polisi difidend yn dod i gyfarfod o'r Bwrdd Unedol yn y dyfodol agos.<br><br>Croesawodd RhW y datblygiad ac roedd yn awyddus iawn i bwysleisio na ddylai'r strategaeth gynnwys ar yr ochr gyhoeddus gael ei dylanwadu gan y strategaeth fasnachol. Pwysleisiodd hefyd yr angen i fod yn gall yn yr hyn yr ydym yn anelu at gyflawni gyda'r strategaeth fasnachol, gan y byddai'n well gor- yn hytrach na than-gyflawni.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y Strategaeth Fasnachol newydd.**<br><br>Cyflwynwyd cynllun ariannol y Bwrdd Masnachol ar gyfer y cyfnod 2022–23 gan ShW. Esboniwyd i'r cynllun gael ei ddatblygu yn gynt yn yr haf, ac nad oedd felly'n adlewyrchu'r strategaeth fasnachol newydd.<br><br>Byddai cynllun ariannol pum mlynedd yn awr yn cael ei ddatblygu ar gyfer y gweithgareddau masnachol, ar gyfer y cyfnod 2023–24 ymlaen, ac y byddai'n cael ei rannu gyda'r Bwrdd Unedol wedi iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd Masnachol yn eu cyfarfod nesaf. | ShW<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>ShW |
| 3. | **Diweddariad chwarterol ar ddashfwrdd cyflawni'r Strategaeth (ar gyfer y DCMS)**<br><br>Cyflwynodd SD ddiweddariad chwarterol o'r dashfwrdd, fyddai'n cael ei rannu gyda'r DCMS mewn cyfarfod yn Llundain ar 09 Tachwedd 2022. Roedd fformat yr adroddiad wedi esblygu mewn ymateb i adborth y DCMS yn ystod y cyfarfod chwarterol diwethaf.<br><br>Cynigiodd aelodau'r Bwrdd adborth ar y dashfwrdd, er mwyn gwneud mân newidiadau cyn ei rannu gyda'r DCMS.<br><br>**Penderfyniad: I addasu'r dashfwrdd yn unol ag adborth yr aelodau, a chyflwyno copi i'r DCMS.**<br><br>[Gadawodd ShW y cyfarfod] | SD |
| 4. | **Cronfa Ffilm**<br><br>Cafwyd cyflwyniad byr ar lafar gan SD am y cynllun Cronfa Ffilm cenedlaethol. Eglurwyd fod addewid o £1m wedi'i roi gan Cymru Greadigol i S4C y llynedd. Bellach mae Cymru Greadigol am i ni weithio efo Cronfa Ffilm Cymru er mwyn defnyddio eu hadnoddau hwy i wireddu'r cynllun.<br><br>Eglurwyd fod y canllawiau ariannu wedi newid ychydig yn ystod y trafodaethau dros y misoedd diwethaf. Bellach, does dim bwriad cynnig £1m am un ffilm yn unig bob blwyddyn, ond yn hytrach ariannu sawl prosiect gyda gwahanol symiau yn ôl yr angen. | |
| 5. | **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad, gan amlinellu'r cynlluniau a'r cyfarfodydd oedd wedi digwydd dros y cyfnod. Amlinellodd LlGW hefyd y cynyrchiadau sydd ar y gweill.<br><br>Holwyd os ydy'r capasiti mewnol ac allanol gennym i gynhyrchu'r holl gynnwys newydd beiddgar. Eglurodd SD fod cyfarfodydd dyddiol yn digwydd i fynd drwy'r cynlluniau, yn arbennig wrth ystyried y cynnwys o gwmpas pêl-droed, a'r gyngerdd arbennig yn Efrog Newydd. Mae'r hyrwyddo ar eu cyfer yn hynod swnllyd, lot yn fwy tactegol a chymunedol. Holwyd ymhellach os oes digon o adnoddau, ac adroddwyd fod tri chwmni allanol yn ein cynorthwyo gyda'r gwaith.<br><br><u>Mesur y Cyfryngau</u><br><br>Cyflwynodd EM ei hatodiad i Adroddiad y Prif Weithredwr ar ei thrafodaethau diweddar gyda'r DCMS ar newidiadau i bwrpas statudol S4C yn y Mesur Cyfryngau arfaethedig.<br><br>Awgrymodd RhW y dylid cael cyngor cyfreithiol allanol, er mwyn medru cynnig ffyrdd amgen ymlaen i'r DCMS.<br><br>**Penderfyniad: EM i gymryd cyngor cyfreithiol allanol a pharhau i drafod gyda swyddogion y DCMS cyn dod ag argymhellion pellach gerbron y Bwrdd.** | EM |

| | | |
|---|---|---|
| | Effaith Chwyddiant ar Gostau Cynhyrchu<br><br>Roedd disgwyl i chwyddiant barhau i gael effaith ar gostau cynhyrchu cynnwys dros y blynyddoedd nesaf. Roedd RhW felly'n awyddus i swyddogion adolygu effaith chwyddiant ar gyllidebau S4C dros y blynyddoedd nesaf, er mwyn i'r Bwrdd ystyried pa gamau strategol fyddai'n briodol i gael y gwerth gorau i'r gynulleidfa.<br><br>Yn y lle cyntaf, roedd RhW yn dymuno bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn copi diwygiedig o'r rhagolygon ariannol ar gyfer y blynyddoedd tan ddiwedd cyfnod ffi'r drwydded, fel bod modd i'r Pwyllgor hwnnw sgriwtineiddio'r rhagdybiaethau.<br><br>Yna, byddai'n dda derbyn amlinelliad o'r strategaeth gynnwys, gydag esboniad o beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer pob genre a'r anghenion cyhoeddi. O gael y wybodaeth, byddai'r Bwrdd yn gallu cael trafodaeth strategol dda cyn diwedd y flwyddyn galendr bresennol ynghylch sut i flaenoriaethu gwariant dros y cyfnod nesaf er mwyn osgoi'r angen am 'salami slicing' i gyrraedd targed ariannol.<br><br>**Penderfyniad: Y bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn y rhagolygon ariannol diweddaraf i'w sgriwtineiddio, gan alw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwnnw os nad oes modd cynhyrchu'r papur mewn pryd erbyn ei gyfarfod nesaf ar 17 Tachwedd 2022.**<br><br>**Penderfyniad: Y bydd adroddiad sy'n cwmpasu cynlluniau cynnwys a chyhoeddi, ac opsiynau strategol i'w hystyried mewn ymateb i effaith chwyddiant ar gyllidebau, yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 08 Rhagfyr 2022.** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>ShW<br><br><br><br><br>SD / LlGW / GE |
| 6. | [Ymunodd ShW â'r cyfarfod]<br><br>**Adroddiad ariannol chwarterol (Ch 2)**<br><br>Cyflwynodd ShW adroddiad ariannol ar gyfer chwarter 2, 2022–23. Nodwyd y prif bwyntiau. | |
| 7. | **Cymeradwyo adroddiad sicrwydd ariannol i'r BBC**<br><br>Mae'r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd rhwng S4C a'r BBC yn gofyn i S4C ddarparu Adroddiad Sicrwydd Ariannol i Fwrdd y BBC bob chwe mis. Cyflwynwyd felly drafft o adroddiad sicrwydd ariannol ar gyfer Ch1–Ch2 2022–23. Roedd adroddiad yn dilyn y fformat ffeithiol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2017.<br><br>Trafodwyd yr adroddiad, ac fe dynnwyd sylw at fân wallau oedd angen eu cywiro.<br><br>Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn nodi y bydd cynrychiolwyr S4C yn mynychu un cyfarfod y flwyddyn o Bwyllgor Archwilio'r BBC er mwyn trafod yr Adroddiad Sicrwydd Ariannol. Byddai'r Ysgrifennydd yn trafod hyn ymhellach gyda'r BBC, yn ogystal â threfnu cyfleoedd i Gadeiryddion, Prif Weithredwyr ac Ysgrifenyddion y ddau ddarlledwr gwrdd yn fwy rheolaidd gyda'i gilydd.<br><br>**Penderfyniad: Y dylid cywiro'r mân wallau yn yr adroddiad, a'i gyflwyno i'r BBC.** | GP |
| 8. | **Cyhoeddi treuliau, rhoddion a lletygarwch**<br><br>Yng nghyfarfod blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 08 Gorffennaf 2022, cafwyd trafodaeth ar Bolisi Datgan Rhoddion a Lletygarwch S4C, ac fe holwyd i'r polisi hwnnw gael ei adolygu, gyda'r posibilrwydd o ddechrau cyhoeddi treuliau a lletygarwch a dderbynnir gan aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.<br><br>Cyflwynwyd papur trafod i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 14 Medi 2022. Yn sgil yr adborth a dderbyniwyd, roedd y cynlluniau wedi eu diwygio yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd.<br><br>Croesawyd y bwriad i gychwyn cyhoeddi manylion treuliau aelodau anweithredol y Bwrdd a'r Tîm Rheoli yn chwarterol. Byddai Swyddfa'r Ysgrifennydd yn cydlynu'r trefniadau, ac fe fyddai'r manylion yn cael eu rhannu gyda'r unigolion perthnasol cyn iddynt gael eu cyhoeddi.<br><br>O ran Ymddangosiadau mewn Cynnwys S4C, holwyd beth ddylid ei wneud mewn achosion pan fo aelod o'r teulu'n ymddangos yn rheolaidd mewn cynnwys S4C fel sylwebydd. Esboniodd yr Ysgrifennydd y dylid llenwi'r ffurflen berthnasol unwaith, gan nodi bod y perthynas agos yn debygol o ymddangos yn rheolaidd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfyniad: I gymeradwyo'r cynlluniau i ddechrau cyhoeddi treuliau aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli'n chwarterol, a chymeradwyo'r diwygiadau i'r Cod Ymarfer ar Ddatgan Rhoddion a Lletygarwch, a'r Cod Ymarfer ar Ymddangosiadau mewn Cynnwys.** | GP |
| 9. | **Cofnodion Cyfarfod Rhif 458 y Bwrdd (a gynhaliwyd 08.07.22), a Chofnodion y Pwyllgorau**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ac fe'u cymeradwywyd.<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgorau canlynol er gwybodaeth:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Risg (14 Medi 2022)<br>• Y Pwyllgor Cyfathrebu (29 Medi 2022)<br>• Y Pwyllgor Cynnwys (04 Hydref 2022) | |
| 10. | **Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Nodwyd y gofrestr Pwyntiau Gweithredu. | |
| 11. | **Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf**<br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. | |

**Llofnod:______________________________ Dyddiad: ______________________**